



Steve Churchman

Rhestr Ranbarthol Canolbarth


a Gorllewin Cymru

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Ffôn: 01766 530661

Symudol: 07511 686480

Facebook: Councillor Steve Churchman



Seilwaith – Diffyg Blaenoriaeth

Mae'r byd rydyn ni'n byw ynddo heddiw yn fyd na fyddai'r un ohonom wedi'i ddychmygu flwyddyn yn unig yn ôl. Mae pandemig Covid wedi tynnu sylw at lawer o'r pethau sy'n annigonol mewn cymdeithas ac o fewn y seilwaith sy'n ei chefnogi.

Fel yr Ymgeisydd Arweiniol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i wneud buddsoddiadau a fydd yn sicrhau manteision hirdymor.

Mewn etholiadau blaenorol, rwyf wedi ymgyrchu dros fuddsoddi yn ein seilwaith – yn y ffyrdd, y rheilffyrdd ac mewn Band Eang. Yn anffodus, ychydig a fuddsoddiwyd yn y ddau gyntaf, ac er bod arian wedi'i fuddsoddi mewn Band Eang, mae gweithio a dysgu o adref yn ystod y pandemig wedi amlygu bod y buddsoddiadau, i lawer gormod ohonom, yn dal i olygu bod gormod o gartrefi a gormod o fusnesau yn dal heb gysylltiadau rhyngwyd digonol. Yn fy ward gyngor i, ceir cartrefi lle mae'r gwifrau ffibr-optig yn pasio o fewn ugain troedfedd iddynt, ond nid oes cysylltiad ar gyfer y cartrefi hyn a does dim cynlluniau i wneud hynny; mae ein rheilffyrdd yn darfod ar waelod y rhestr fuddsoddi a'r oll sydd gennym yw rheilffyrdd sy'n addas ar gyfer y 1960au.



Llanbedr ar Lein Arfordir y Cambrian. Gorsaf Sinderela ar lein Sinderela.

Gofal iechyd – Wedi'i gymryd yn ganiataol yn rhy hir



Mae'r pandemig wedi rhoi straen aruthrol ar ein GIG, ac rydym oll wedi dod i sylweddoli pa mor bwysig ydyw. I lawer, mae bod yn gallu cofrestru â deintydd y GIG yn amhosibl pan fo pethau'n normal.

Fel gwlad, rhaid inni roi i'r GIG y gydnabyddiaeth mae'n ei wir haeddu. Pa fath o gydnabyddiaeth gan y Llywodraeth yw disgwyl inni sefyll ar riniog y drws a churo dwylo? Mae angen buddsoddiadau addas, mae angen offer digonol ac amserol, ac mae Gweithwyr Iechyd yn haeddu incwm gweddus.

Gwaith Tîm – Dros Gymru well

Rwy'n gweithio fel rhan o dîm ac wedi cydweithio ag ASau, Aelodau'r Cynulliad, a llawer o sefydliadau megis PAWB (Pobol Atal Wylfa B) a Chyfeillion y Ddaear i geisio creu Cymru well. Bûm yn ymgyrchu â William Powell pan oedd yn aelod Cynulliad dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru i achub Amgueddfa Lloyd-George yn Llanystumdwy; buom hefyd yn gweithio â'r ymgyrch i achub Ysbyty Blaenau Ffestiniog a thynnom sylw at yr angen am well gwasanaethau yn Ysbyty Alltwen ger Porthmadog.

Fel Ymgeisydd rhif un ar y Rhestr, byddaf yn ymgyrchu gyda thîm Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ac unrhyw asiantaethau i sicrhau Cymru well.



Ffotograff a chyfeiriadau at William (Bill) Powell: Er bod William Powell wedi rhoi ei gydsyniad i'r cyfeiriadau ato yn y cyhoeddiad hwn, nid yw ei gydsyniad yn golygu ei fod yn cymeradwyo fy ymgeisyddiaeth.

Pleidleisiwch dros Steve Churchman – Rhif Un